

# Yr Ysgol Sul

## Darllen: Marc 1:22

Ydych chi'n cofio rhai o'ch athrawon yn yr ysgol gynradd neu'r ysgol Sul? Mae gen i gof da am Anti Beti, f'athrawes yn yr ysgol Sul. 'Miss' hon a hon oedd athrawon yr ysgol bob dydd, ond 'Anti' a gaed yn yr ysgol Sul. Mae hyn yn ddo'i hun yn dweud cyfrolau! Gwraig ganol oed oedd Anti Beti, gyda gwên ar ei hwyneb bob amser. Roedd yn athrawes wrth reddf. Roedd yn adnabod pob un o'r plant yn ei dosbarth ac yn ein trin fel unigolion. Gwyddai i'r dim am ein cryfderau a'n gwendidau, a byddai'n barod i roi cymorth unigol i bob un ohonom. Roedd ganddi ddawn dweud stori hefyd. Cofiaf yn iawn deithio gyda'r gŵr hwnnw ar y ffordd o Jerwsalem i Jericho, a chofiaf yn fyw iawn edrych ar Iesu'n marw ar y groes. Athrawes benignamp, yn tanio dychymyg plentyn bach.

Athro felly oedd Iesu. Gallai gyfathrebu â'r miloedd, fel y gwnaeth yn yr awyr agored. Ond gallai hefyd glosio at unigolion, fel y wraig a eisteddai wrth ei draed. Gallai fod yn drugarog at yr anffodusion ond yn ddi-flewyn ar dafod at yr hunangyfiawn. Doedd Iesu byth yn ddiflas. O'r munud cyntaf, byddai ei wrandawyr naill ai yn nodio eu cymeradwyaeth neu'n llygadrythu arno mewn cynddaredd. Doedd dim posib mynd i gysgu yng nghwmni Iesu. O dro i dro, byddai'n trywanu ei wrandawyr â chwestiwn neu ddau, 'Pwy meddech chwi?' yng Nghesarea Philipi, ac 'Wyt ti'n fy ngharu?' ar lan môr Tiberias. Siaradai fel un ag awdurdod ganddo, ac eto doedd dim arlliw o ddogmatiaeth, dim awgrym o ddweud 'fel hyn mae hi i fod'. Ymateb y bobl oedd bod gan hwn rywbeth i'w ddweud a'i bod yn werth gwranddo arno, cytuno ag ef neu beidio.

Roedd yn gallu cyfathrebu – cyrraedd ei bobl. Roedd ei ddysgeidiaeth mor glir ac uniongyrchol, a'r cyfan wedi ei oleuo gan ddigwyddiadau o'i gwmpas - golygfeydd cartrefol y byddai pawb yn gyfarwydd â nhw. Heuwr yn mynd allan i hau, gwraig yn pobi bara, priodas, a gweithwyr yn aros i gael eu cyflogi. Nid dyfyniadau hirfaith o eiddo rhyw Rabbi neu'i gilydd,

neu waith rhyw athronydd neu ddiwinydd pwysig oedd cynnwys ei ddysgeidiaeth. A'r dywediadau bachog, doniol rheiny. Er enghraifft, y dall yn tywys y dall, 'Onid syrthio i bydew a wna'r ddau?' (Luc 6:39), a'r camel yn ceisio mynd trwy grau nodwydd (Mathew 19:24). Gwyddai i'r dim sut i ennill ei wrandawyr.

A'r cynnwys wedyn – mor chwyldroadol! Mae'n ein hannog i garu ein gelynyon. Caru terfysgwyr? Troi'r foch arall a rhoi ei fantell i arall? Dyna groeso i ddrwgweithredwyr! 'Rho i'r sawl sy'n gofyn gennyt, a phaid â throi i ffwrdd oddi wrth y sawl sydd am fenthyca gennyt' (Mathew 5:42). Mae'r athro hwn yn mynnu gwrandawriad trwy herio'i wrandawyr. Mae'r athro hwn yn gyfathrebwr heb ei ail, ac mae ei neges yn chwyldroadol.

### **Myfyrdod pellach:**

Beth yn eich barn chi sy'n gwneud athro da?

Pa mor chwyldroadol oedd dysgeidiaeth Iesu? Edrychwch eto ar gynnwys y Bregeth ar y Mynydd.